OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

# Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 4

## Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

### Cofnodion o'r cynllun personol

**15.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) cadw cofnod o'r canlynol—

(i) y cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig, a

(ii) canlyniad unrhyw adolygiad, a

(b) rhoi copi o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig i—

(i) yr unigolyn,

(ii) unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant yr unigolyn.